# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 14 Mai 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16 Mai 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 24 Mai 2018 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas – Aelod Cabinet dros Addysg

---

**PWNC**

Addasu patrwm ffioedd Cludiant Ôl-16

---

**PENDERFYNIAD –**

Newid dosraniad ffioedd y Tocyn Teithio 16+ i fod yn £120 am dymor yr hydref, £120 am dymor y gwanwyn a £60 am dymor yr haf yn hytrach na'r patrwm £100 y tymor presennol, a hynny'n weithredol ar gyfer Tocyn Teithio 16+ o 1 Medi 2018 ymlaen.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad atodol

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd, adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Addysg |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Owen Owens<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 14/5/18 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Addasu patrwm ffioedd Cludiant Ôl-16

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Newid dosraniad ffioedd y Tocyn Teithio 16+ i fod yn £120 am dymor yr hydref, £120 am dymor y gwanwyn, a £60 am dymor yr haf yn hytrach na'r patrwm £100 y tymor presennol, a hynny'n weithredol ar gyfer Tocyn Teithio 16+ o 1 Medi, 2018 ymlaen.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae diffyg o ran cyrraedd targed incwm sydd wedi'i osod yn y maes Cludiant Ôl-16.

Gwelir bod y gwerthiant tocynnau mwyaf yn digwydd yn nhymor yr hydref, llai o werthiant yn nhymor y gwanwyn, a llai wedyn o werthiant yn nhymor yr haf.

Dydy costau cludiant ddim yn newid o un tymor i'r llall, ond mae niferoedd sylweddol llai yn prynu Tocyn Teithio 16+ yn nhymor yr haf.

Mae'r dosraniad ffioedd newydd a gynigir yn adlewyrchu'r angen i sybsideiddio costau tymor yr haf drwy godi mwy o incwm yn y ddau dymor cynt (ond gwneud hynny heb godi'r pris blwyddyn addysgol am ddefnyddio Tocyn Teithio 16+).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Pris cyfredol Tocyn Teithio 16+ ydy £100 y tymor i bawb (ers Medi 2016).


Mae diffyg o ran cyrraedd targed incwm sydd wedi'i osod yn y maes Cludiant Ôl-16.

Y diffyg ar gyfer 2017-18 oedd £60,000.

Targed incwm 2018-19 ydy £254,500 (sydd yn cynnwys cynnydd o 1.5% ar lefel ffioedd 2017-18).

Ers symud i ffi o £100 y tymor i bawb ym Medi 2016, mae patrwm gwerthiant y Tocyn Teithio 16+ fel a ganlyn:

| Tymor | Cyfanswm |
|---|---|
| Medi - Rhagfyr 2016 | 933 |
| Ionawr - Mawrth 2017 | 715 |
| Ebrill - Gorff 2017 | 456 |
| Medi - Rhagfyr 2017 | 795 |
| Ionawr 2018 | 622 |




Gwelir bod y gwerthiant tocynnau mwyaf yn digwydd yn nhymor yr hydref, llai o werthiant yn nhymor y gwanwyn, a llai wedyn o werthiant yn nhymor yr haf.

Petai'r dosraniad ffioedd y Tocyn Teithio 16+ wedi bod yn £120 am dymor yr hydref, £120 am dymor y gwanwyn, a £60 am dymor yr haf yn hytrach na £100 y tymor yn ystod y flwyddyn addysgol 2016-17, fe fyddai hynny wedi codi tua £15,000 yn fwy o incwm.

O ddefnyddio'r patrwm hanesyddol o werthiant tocynnau i daflunio pryniant tocynnau ar gyfer y flwyddyn addysgol 2017-18, a defnyddio'r dosraniad ffioedd o

£120 am dymor yr hydref, £120 am dymor y gwanwyn, a £60 am dymor yr haf, rhagwelir y byddai hynny yn codi tua £13,000 yn fwy o incwm.

Dydy costau cludiant ddim yn newid o un tymor i'r llall, ond mae niferoedd sylweddol llai yn prynu Tocyn Teithio 16+ yn nhymor yr haf.

Mae'r dosraniad ffioedd newydd a gynigir yn adlewyrchu'r angen i sybsideiddio costau tymor yr haf drwy godi mwy o incwm yn y ddau dymor cynt (ond gwneud hynny heb godi'r pris blwyddyn addysgol am ddefnyddio Tocyn Teithio 16+).

O ystyried blwyddyn addysgol lawn mae cost Tocyn Teithio 16+ yn parhau i fod yn £300 am dri thymor addysgol.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid –**

"Rwy'n llwyr gefnogi'r argymhelliad ar gyfer y penderfyniad. Mae'r strategaeth brisio diwygiedig yn adlewyrchu'r defnydd o gludiant ôl-16."

**Swyddog Monitro –**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Aelod/au Lleol –**

Dim yn fater lleol